Dŵr Cymru
Welsh Water

# Mesuryddion

# Gwybodaeth i Adwerthwyr

**Fersiwn** 3.0
**Dyddiad cyhoeddi** 1 Medi 2025

# Mesuryddion
# Gwybodaeth i Adwerthwyr

Mae holl safleoedd cymwys ein cwsmeriaid yn cael cyflenwadau trwy fesuryddion, felly mae hi'n hanfodol ein bod ni'n gweithio gyda'n Hadwerthwyr i sicrhau bod data'r farchnad yn gywir, a bod modd darllen y mesuryddion pan fo angen. Mae hyn yn bwysig er mwyn i gwsmeriaid fonitro eu defnydd o ddŵr ac er mwyn i ni sicrhau Setliadau cywir.

## Ffeithiau am Fesuryddion Masnachol

- Mae gennym safleoedd cymwys sy'n derbyn cyflenwad trwy un mesurydd, a safle sy'n derbyn cyflenwad trwy 55 mesurydd (oherwydd y meini prawf trothwy sy'n gweithredu yn ein hardal sy'n caniatáu i safleoedd mewn un lleoliad gael eu cysylltu ynghyd)
- Mae'r 400+ mesurydd masnachol sydd gennym yn amrywio o ran maint o'r lleiaf, sy'n 15mm i'r mwyaf, sy'n 450mm
- Mae Amcangyfrifon Blynyddol ein mesuryddion masnachol o ran Cyfaint yn amrywio o $0m^3$ i 4.2 miliwn $m^3$
- Mae 96% o'n mesuryddion masnachol mewn lleoliadau allanol
- Mae ein mesuryddion yn cofnodi defnydd ar gyfer tri math gwahanol o ddŵr: Dŵr yfadwy, Dŵr anyfadwy sydd wedi ei drin yn rhannol, a Dŵr crai anyfadwy.

## Ein Polisi Mesuryddion

Ni fydd yn penderfynu ar leoliad mesurydd. Gellir gofyn am gael adleoli mesurydd, ond codir tâl ar yr Adwerthwr am gost symud y mesurydd.

Os yw'r eiddo mwy na 50 metr o'n prif bibell ddosbarthu, byddwn ni'n gosod y mesurydd ar ddechrau'r bibell gyflenwi (sydd fel arfer ar y ffin â'r briffordd, ond bydd yna eithriadau yn hynny o beth, yn arbennig ar safleoedd cwsmeriaid mwy ac mewn lleoliadau gwledig).

Bydd Mesuryddion Dŵr yn parhau i fod yn eiddo i ni, ac o dan Adran 175 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, nid oes gan Adwerthwyr a chwsmeriaid dibreswyl yr awdurdod i dynnu neu ymyrryd â'n mesuryddion na chyfarwyddo trydydd parti i wneud hynny. Mae hi'n drosedd ymyrryd â'n mesuryddion, eu difrodi'n fwriadol neu eu tynnu.

Ni ddylid rhwystro mynediad at y mesuryddion na'n hatal ni rhag cyrraedd at ein hasedau. Os bydd hynny'n digwydd a bod angen i ni glirio'r rhwystr, byddwn ni'n codi tâl am ein costau cysylltiedig.

Nodir ein Hamodau a Thelerau ar gyfer cyflenwadau â mesurydd yn Atodiad 1 o'r ddogfen hon.

## Cynnwys

Ffeithiau am Fesuryddion Masnachol 2
Ein Polisi Mesuryddion 2
Ein Mesuryddion 3
Darllen Mesuryddion 3
Mesuryddion Trawsffiniol 3
Diogelu Data 3
Atodiad 1 – Manylebau'r Mesuryddion 4
Atodiad 2 – Amodau a Thelerau Safonol ar gyfer Cyflenwad Dŵr â Mesurydd 22
Atodiad 3 – Perygylon cyffredin hysbys 24

## Ein Mesuryddion

Mae manylion y mesuryddion y byddwn yn eu gosod a'u manylebau yn Atodiad 1 o'r ddogfen hon.

## Darllen Mesuryddion

**Adwerthwyr neu Gontractwyr Trydydd Parti yn Darllen ein Mesuryddion**

Lle bo Adwerthwr yn darllen mesurydd cwsmer dibreswyl neu'n cyfarwyddo contractwr trydydd parti i wneud hynny ar eu rhan, ni fyddwn yn gyfrifol am weithredoedd yr Adwerthwr na'u contractwyr.

Yn ein barn ni, ni fydd angen i Adwerthwyr na chontractwyr trydydd parti fynd i mewn i siambrau'r mesuryddion i ddarllen y mesurydd am ein bod ni'n defnyddio offer darllen mesuryddion nad yw'n ymwthiol, sy'n lliniaru risgiau Iechyd a Diogelwch sydd ynghlwm wrth fynd i fannau cyfyng.

Os bydd angen i Adwerthwr neu gontractwr trydydd parti gyrchu siambr mesurydd, dylent fod yn ymwybodol o'r risg sydd ynghlwm wrth gyflawni'r gwaith yma, a chyflawni asesiad priodol o'r risg.

Mae rhestr o'r peryglon cyffredin hysbys y mae angen eu rheoli wrth weithio yn neu ger siambrau mesuryddion a chyfarpar DCWW yn Atodlen 3.

**Ceisiadau i ni ddarllen mesuryddion ar ran Adwerthwyr**

Gallwn ddarparu gwasanaethau darllen mesuryddion ar gyfer adwerthwyr trydydd parti ar gais. Mae gwybodaeth am ein hamodau a thelerau safonol yma.

**Mesuryddion nad ydynt yn rhai Masnachol**

Mae gennym nifer fach o fesuryddion nad ydynt yn rhai masnachol sy'n is-fesuryddion ar gyfer mesuryddion mewn safleoedd cymwys. Byddwn ni'n darllen y mesuryddion hyn bob mis neu bob yn ail fis yn dibynnu ar y gofynion masnachol.

Gall adwerthwyr ofyn i ni gyflawni darlleniad ad hoc ar fesurydd nad yw'n fesurydd masnachol trwy gyflwyno cais B03.

## Mesuryddion Trawsffiniol

Mae gennym drefniadau gydag Adwerthwyr cyfagos i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu ar eu cyfer o fewn yr amserlenni gofynnol lle bo cwsmeriaid yn y farchnad am garthffosiaeth, ond nid dŵr.

## Diogelu Data

Ystyrir unrhyw ofyniad sydd gan DCWW i ddatgelu gwybodaeth neu ddata i'r Adwerthwr gan gyfeirio at gyfreithiau Diogelu Data y DU, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

# Atodiad 1 – Manylebau'r Mesuryddion

| Maint y mesurydd – 15mm | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad | ALTAIR V4 15/134 + IZAR RC868i W G4 | ALTAIR V5 2,5 CONC + IZAR RC868i W G4 | Elster V210H (AMR) | | Elster V200H (AMR) | |
| Rhif y Gydran | 3141767 | 3141741 | LUQHB5078 | LUQHB5077 | LUSHB5787 | LUSHB5788 |
| Math | Piston Troi (Mewnol) | Piston Troi (Maniffold) | Piston Troi Hybrid (Maniffold) | | Piston Troi Hybrid (Mewnol) | |
| Strwythur S/N | HYRYU###### | HYRYU###### | YYE###### | | YYF###### | |
| Manylebau'r Mesurydd | | | | | | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | Edau 1" | G1 ½" | G 1 ½" | | G ¾" | |
| Hyd y Mesurydd | 134mm | DB | D/B | | 134 mm | |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R160 | R160 | R400 | | R400 | |
| Cyfradd Llif Cychwynnol | 0.4 l/a | 0.4 l/a | 1 l/a | | 1 l/a | |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 15.62 l/a | 15.62 l/a | 6.25 l/a | | 6.25 l/a | |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 25 l/a | 25 l/a | 10 l/a | | 10 l/a | |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 2.5 $m^3$/a | 2.5 $m^3$/a | 2.5 $m^3$/a | | 2.5 $m^3$/a | |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 3.125 $m^3$/a | 3.125 $m^3$/a | 3.125 $m^3$/a | | 3.125 $m^3$/a | |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 5 | 5 | 6 | | 6 | |
| Deunydd y Mesurydd | Polymer | Polymer | Polymer | | Polymer | |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | 1 Litr | 1 Litr | 0.1 litr | | 0.1 litr | |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (Pwls I) | Heb ei Gynnwys (Pwls II) | Nid yw'n Gyson | Gosodedig (Wedi'i Wifrio) | Nid yw'n Gyson | Gosodedig (Wedi'i Wifrio) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | Oes | Oes | Oes | | Nac oes (ar gydsyniad) | |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy | Ydy | Ydy | | Ydy | |

| Maint y Mesurydd – 20mm | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | ALTAIR V5 20/165 + IZAR RC868i W G4 | ALTAIR V5 2,5 CONC + IZAR RC868i W G4 | HYDRUS 2 4 R800 20/130 50 868/WW | Elster V210H (AMR) | Elster V200H (AMR) |
| **Rhif y Gydran** | 3142095 | 3141741 | 3142968 | LUQHC5172 | LUSHC5082 |
| **Math** | Piston Troi (Mewnol) | Piston Troi (Maniffold) | Uwchsonig Statig (Mewnol) | Piston Troi Hybrid (Maniffold) | Piston Troi Hybrid (Mewnol) |
| **Strwythur S/N** | HYRYU###### | HYRYU###### | Rhif OMS (rhif cyfresol 8 digid) | YYE###### | YYF###### |
| **Manylebau'r Mesurydd** | | | | | |
| **Cysylltiad â'r Mesurydd** | Edau 1" | G1 ½" | Edau 1" | G 1 ½" | G 1" |
| **Hyd y Mesurydd** | 165mm | DB | 130mm | D/B | 165 mm |
| **Cyfradd Llif (Q3/Q1)** | R160 | R160 | R800 | R315 | R315 |
| **Cyfradd Llif Cychwynnol** | 0.7 l/a | 0.4 l/a | 1.4 l/a | 2 l/a | 2 l/a |
| **Isafswm y Gyfradd Llif – Q1** | 25 l/a | 25 l/a | 5 l/a | 12.7 l/a | 12.7 l/a |
| **Cyfradd Llif Trosiannol – Q2** | 40 l/a | 40 l/a | 8 l/a | 20.3 l/a | 20.3 l/a |
| **Cyfradd Llif Parhaol – Q3** | 4 $m^3$/a | 4 $m^3$/a | 4 $m^3$/a | 4.0 $m^3$/a | 4.0 $m^3$/a |
| **Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4** | 5 $m^3$/a | 5 $m^3$/a | 5 $m^3$/a | 5.0 $m^3$/a | 5.0 $m^3$/a |
| **Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai** | 5 | 5 | 5 | 6 | 6 |
| **Deunydd y Mesurydd** | Polymer | Polymer | Polymer | Pres | Pres |
| **Cyfaint y Pwls Allbwn** | 1 Litr | 1 Litr | 1 Litr | 1 Litr | 1 Litr |
| **Uned Pwls (Rhif y Gydran)** | Heb ei Gynnwys (Pwls II) | Heb ei Gynnwys (Pwls II) | Opsiwn allbwn pwls gosodedig | Gosodedig (Wedi'i Wifrio) | Gosodedig (Wedi'i Wifrio) |
| **A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig** | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| **A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID** | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

<table>
<tr><th colspan="6">Maint y Mesurydd – 25 mm</th></tr>
<tr><td>Disgrifiad</td><td>Elster V210</td><td>Elster V200</td><td colspan="2">Elster V210H (AMR)</td><td>Elster V200H (AMR)</td></tr>
<tr><td>Rhif y Gydran</td><td>LUQTD4119</td><td>LUSTD5607</td><td>LUQHD5274</td><td>LUQHD5272</td><td>LUSHD5082</td></tr>
<tr><td>Math</td><td>Piston Troi (Maniffold)</td><td>Piston Troi (Mewnol)</td><td colspan="2">Piston Troi Hybrid (Maniffold)</td><td>Piston Troi Hybrid (Mewnol)</td></tr>
<tr><td>Strwythur S/N</td><td>YYM######</td><td>YYT######</td><td colspan="2">YYE######</td><td>YYF######</td></tr>
<tr><td colspan="6">Manylebau'r Mesurydd</td></tr>
<tr><td>Cysylltiad â'r Mesurydd</td><td>G 2"</td><td>G 1 ¼"</td><td colspan="2">G 2"</td><td>G 1 ¼"</td></tr>
<tr><td>Hyd y Mesurydd</td><td>D/B</td><td>199 mm</td><td colspan="2">D/B</td><td>199mm</td></tr>
<tr><td>Cyfradd Llif (Q3/Q1)</td><td>R250</td><td>R160</td><td colspan="2">R250</td><td>R160</td></tr>
<tr><td>Cyfradd Llif Cychwynnol</td><td>6 l/a</td><td>6 l/a</td><td colspan="2">6 l/a</td><td>6 l/a</td></tr>
<tr><td>Isafswm y Gyfradd Llif – Q1</td><td>25.2 l/a</td><td>39.4 l/a</td><td colspan="2">25.2 l/a</td><td>39.4 l/a</td></tr>
<tr><td>Cyfradd Llif Trosiannol – Q2</td><td>40.32 l/a</td><td>63.0 l/a</td><td colspan="2">40.32 l/a</td><td>63.0 l/a</td></tr>
<tr><td>Cyfradd Llif Parhaol – Q3</td><td>6.3 $m^3$/a</td><td>6.3 $m^3$/a</td><td colspan="2">6.3 $m^3$/a</td><td>6.3 $m^3$/a</td></tr>
<tr><td>Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4</td><td>7.875 $m^3$/a</td><td>7.875 $m^3$/a</td><td colspan="2">7.875 $m^3$/a</td><td>7.875 $m^3$/a</td></tr>
<tr><td>Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai</td><td>5</td><td>5</td><td colspan="2">6</td><td>6</td></tr>
<tr><td>Deunydd y Mesurydd</td><td>Pres</td><td>Pres</td><td colspan="2">Pres</td><td>Pres</td></tr>
<tr><td>Cyfaint y Pwls Allbwn</td><td>1 Litr</td><td>1 Litr</td><td colspan="2">1 Litr</td><td>1 Litr</td></tr>
<tr><td>Uned Pwls (Rhif y Gydran)</td><td>Heb ei Gynnwys (PR6)</td><td>Heb ei Gynnwys (PR6)</td><td>Nid yw'n Gyson</td><td>Gosodedig (Wedi'i Wifrio)</td><td>Gosodedig (Wedi'i Wifrio)</td></tr>
<tr><td>A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig</td><td>Oes</td><td>Oes</td><td colspan="2">Oes</td><td>Oes</td></tr>
<tr><td>A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID</td><td>Ydy</td><td>Ydy</td><td colspan="2">Ydy</td><td>Ydy</td></tr>
</table>

| Maint y Mesurydd – 30 mm | | |
|---|---|---|
| Disgrifiad | Elster V200 | Elster V200H (AMR) |
| Rhif y Gydran | LUSTF5213 | LUSHF5082 |
| Math | Piston Troi (Mewnol) | Piston Troi Hybrid (Mewnol) |
| Strwythur S/N | YYT###### | YYF###### |
| Manylebau'r Mesurydd | | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | G 1 ½" | G 1 ½" |
| Hyd y Mesurydd | 260 mm | 260 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R160 | R160 |
| Cyfradd Llif Cychwynnol | 12 l/a | 12 l/a |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 62.5 l/a | 62.5 l/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 100 l/a | 100 l/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 10 $m^3$/a | 10 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 12.5 $m^3$/a | 12.5 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 5 | 6 |
| Deunydd y Mesurydd | Pres | Pres |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | 1 Litr | 1 Litr |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (PR6) | Gosodedig (Wedi'i Wifrio) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | Oes | Oes |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 40 mm | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad | Elster V200 | Elster V200H (AMR) | Elster H4000 (Corff ISO Hir) | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | LUSTM5811 | LUSHG5082 | LUPPA4868 | FEW412.R.0040. S2.B.R.E.81.L.B1-RCC.. SC2...AD1 |
| Math | Piston Troi (Mewnol) | Piston Troi Hybrid (Mewnol) | Woltmann | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | YYT###### | YYF###### | YYW###### | 3K########## |
| Manylebau'r Mesurydd | | | | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | G 2" | G 2" | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog |
| Hyd y Mesurydd | 300 mm | 300 mm | 300 mm | 200 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R160 | R200 | R126 | R160 |
| Cyfradd Llif Cychwynnol | 20 l/a | | | D/B |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 0.10 $m^3$/a | 0.08 $m^3$/a | 0.5 $m^3$/a | 0.16 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 0.16 $m^3$/a | 0.13 $m^3$/a | 0.81 $m^3$/a | 0.25 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 16 $m^3$/a | 16 $m^3$/a | 63 $m^3$/a | 25 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 20 $m^3$/a | 20 $m^3$/a | 79 $m^3$/a | 31 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 5 | 6 | 6 | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Pres | Pres | Haearn Bwrw | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | 1 Litr | 1 Litr | 1 Litr | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (PR6) | Gosodedig (Wedi'i Wifrio) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | Oes | Oes | Oes | Oes |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy | D/B | Ydy | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 50 mm | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad | Elster H4000 (Corff ISO Byr) | Elster H4000 (Corff ISO Hir) | Elster H4000 | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | (Hyd Kent) | LUPPB4868 | LUPPB4871 | FEW412.R.0050. S2.B.R.E.81.L.B1-RCC.. SC2...AD1 |
| Math | Woltmann | Woltmann | Woltmann | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | YYW###### | YYW###### | YYW###### | 3K########## |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog |
| Manylebau'r Mesurydd | | | | |
| Hyd y Mesurydd | 200 mm | 300 mm | 311 mm | 200 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R126 | R126 | R126 | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 0.5 $m^3$/a | 0.5 $m^3$/a | 0.5 $m^3$/a | 0.25 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 0.81 $m^3$/a | 0.81 $m^3$/a | 0.81 $m^3$/a | 0.40 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 63 $m^3$/a | 63 $m^3$/a | 63 $m^3$/a | 40 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 79 $m^3$/a | 79 $m^3$/a | 79 $m^3$/a | 50 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 6 | 6 | 6 | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Haearn Bwrw | Haearn Bwrw | Haearn Bwrw | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | 1 Litr | 1 Litr | 1 Litr | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B | D/B | D/B | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 80 mm | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad | Elster H4000 (Corff ISO Byr) | Elster H4000 (Corff ISO Hir) | Elster H4000 (Hyd Kent) | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | LUPPD4854 | LUPPD4868 | LUPPD4871 | FEW412.R.0080. S2.B.R.E.81.L.B1-RCC.. SC2...AD1 |
| Math | Woltmann | Woltmann | Woltmann | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | YYW###### | YYW###### | YYW###### | 3K########## |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog |
| Manylebau'r Mesurydd | | | | |
| Hyd y Mesurydd | 200 mm | 350 mm | 413 mm | 200 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R125 | R125 | R125 | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 1.28 $m^3$/a | 1.28 $m^3$/a | 1.28 $m^3$/a | 0.63 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 2.05 $m^3$/a | 2.05 $m^3$/a | 2.05 $m^3$/a | 1.0 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 160 $m^3$/a | 160 $m^3$/a | 160 $m^3$/a | 100 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 200 $m^3$/a | 200 $m^3$/a | 200 $m^3$/a | 125 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 6 | 6 | 6 | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Haearn Bwrw | Haearn Bwrw | Haearn Bwrw | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | 1 Litr | 1 Litr | 1 Litr | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B | D/B | D/B | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 100 mm | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Disgrifiad | Elster H4000 (Corff ISO Byr) | Elster H4000 (Corff ISO Hir) | Elster H4000 (Hyd Kent) | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | LUPPE4854 | LUPPE4868 | LUPPE4871 | FEW412.R.0100. S2.B.R.E.81.L.B1-RCC.. SC2...AD1 |
| Math | Woltmann | Woltmann | Woltmann | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | YYW###### | YYW###### | YYW###### | 3K########## |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog |
| Manylebau'r Mesurydd | | | | |
| Hyd y Mesurydd | 250 mm | 350 mm | 483 mm | 250 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R125 | R125 | R125 | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 1.28 $m^3$/a | 1.28 $m^3$/a | 1.28 $m^3$/a | 1.0 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 2.05 $m^3$/a | 2.05 $m^3$/a | 2.05 $m^3$/a | 1.6 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 160 $m^3$/a | 160 $m^3$/a | 160 $m^3$/a | 160 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 200 $m^3$/a | 200 $m^3$/a | 200 $m^3$/a | 200 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 6 | 6 | 6 | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Haearn Bwrw | Haearn Bwrw | Haearn Bwrw | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | 1 Litr | 1 Litr | 1 Litr | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B | D/B | D/B | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 150 mm | | | |
|---|---|---|---|
| Disgrifiad | Elster H4000 (Corff ISO Byr) | Elster H4000 (Corff ISO Hir) | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | LUPPG4854 | LUPPG4868 | FEW412.R.0150.S2.B.R.E.81.L.B1-RCC..SC2...AD1 |
| Math | Woltmann | Woltmann | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | YYW###### | YYW###### | 3K########## |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog | PN16 Cantelog |
| Manylebau'r Mesurydd | | | |
| Hyd y Mesurydd | 300 mm | 500 mm | 300 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R200 | R200 | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 2.0 $m^3$/a | 2.0 $m^3$/a | 2.5 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 3.2 $m^3$/a | 3.2 $m^3$/a | 4.0 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 400 $m^3$/a | 400 $m^3$/a | 400 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 500 $m^3$/a | 500 $m^3$/a | 500 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 6 | 6 | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Haearn Bwrw | Haearn Bwrw | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | 1 Litr | 1 Litr | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (PR7 K1) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B | D/B | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy | Ydy | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 200 mm | |
|---|---|
| Disgrifiad | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | FEW412.R.0200.S2.B.R.E.81.L.B1-RCC..SC2...AD1 |
| Math | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | 3K########## |
| Manylebau'r Mesurydd | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog |
| Hyd y Mesurydd | 350 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 3.9 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 6.3 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 630 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 788 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 250 mm | |
|---|---|
| Disgrifiad | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | FEW412.R.0250.S2.B.R.E.81.L.B1-RCC..SC2...AD1 |
| Math | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | 3K########## |
| Manylebau'r Mesurydd | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog |
| Hyd y Mesurydd | 450 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 6.3 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 10 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 1000 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 1250 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 300 mm | |
|---|---|
| Disgrifiad | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | FEW412.R.0300.S2.B.R.E.81.L.B1-RCC..SC2...AD1 |
| Math | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | 3K########## |
| Manylebau'r Mesurydd | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog |
| Hyd y Mesurydd | 500 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 10 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 16 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 1600 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 2000 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 350 mm | |
|---|---|
| Disgrifiad | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | FEW412.R.0350.S2.B.R.E.81.L.B1-RCC..SC2...AD1 |
| Math | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | 3K########## |
| Manylebau'r Mesurydd | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog |
| Hyd y Mesurydd | 550 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 10 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 16 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 1600 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 2000 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 400 mm | |
|---|---|
| Disgrifiad | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | FEW412.R.0400.S2.B.R.E.81.L.B1-RCC..SC2...AD1 |
| Math | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | 3K########## |
| Manylebau'r Mesurydd | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog |
| Hyd y Mesurydd | 600 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 15.6 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 25.0 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 2500 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 3125 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 450 mm | |
|---|---|
| Disgrifiad | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | FEW412.R.0450.S2.B.R.E.81.L.B1-RCC..SC2...AD1 |
| Math | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | 3K########## |
| Manylebau'r Mesurydd | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog |
| Hyd y Mesurydd | 700 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 15.6 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 25.0 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 2500 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 3125 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy |

| Maint y Mesurydd – 500 mm | |
|---|---|
| Disgrifiad | ABB Aquamaster4 |
| Rhif y Gydran | FEW412.R.0500.S2.B.R.E.81.L.B1-RCC..SC2...AD1 |
| Math | Electromagnetig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | 3K########## |
| Manylebau'r Mesurydd | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | PN16 Cantelog |
| Hyd y Mesurydd | 770 mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R160 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 25.0 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 40.0 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 4000 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 5000 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 7 |
| Deunydd y Mesurydd | Dur Carbon |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | Rhaglenadwy |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | Heb ei Gynnwys (WABC2010/01) |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | D/B |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy |

| Mesurydd Taenellwr Tân Domestig | |
|---|---|
| Disgrifiad | Diehl Hydrus 2.0 DN20 R800 |
| Rhif y Gydran | I'w bennu |
| Math | Uwchsonig (Pŵer Batri) |
| Strwythur S/N | ######## |
| Manylebau'r Mesurydd | |
| Cysylltiad â'r Mesurydd | G1B |
| Hyd y Mesurydd | 130mm |
| Cyfradd Llif (Q3/Q1) | R800 |
| Isafswm y Gyfradd Llif – Q1 | 3.13 l/a |
| Cyfradd Llif Trosiannol – Q2 | 5 l/a |
| Cyfradd Llif Parhaol – Q3 | 4 $m^3$/a |
| Cyfradd Llif Gorlwyth – Q4 | 5 $m^3$/a |
| Uchafswm Nifer y Deialau Mynegai | 6 |
| Deunydd y Mesurydd | Pres |
| Cyfaint y Pwls Allbwn | Nid yw'n Gyson |
| Uned Pwls (Rhif y Gydran) | D/B |
| A oes gan y Mesurydd gydsyniad WRAS am dir halogedig | Na fydd |
| A yw'r Mesurydd yn gyson ag MID | Ydy (MID DE-19-MI001-PTB012) |

# Images



Elster V210 Polymer



Elster V200 Polymer



Elster V210 Brass



Elster V200 Brass



Elster V210 Hybrid Polymer



Elster V200 Hybrid Polymer



Elster V200 Hybrid Brass



Elster H4000



Elster H5000



ABB Aquamaster



Hydrus 2 DN20



Altair V4 Inline



Altair V5 Concentric

# Llawlyfrau

**Elster V200/V210**

| | |
|---|---|
| Taflen Manyleb | ELS10119_V200_V210_Specsheet_V3_HW.pdf |
| Llyfryn | ELS10139_V200_V210_Brochure_V2_INT.pdf |

**Elster V200H (AMR)/V210H (Hybrid)**

| | |
|---|---|
| Llawlyfr Manyleb | 200H (AMR)_210H_868 wMBus ELS10098_Specsheet_V1_BM.pdf |

**Elster H4000**

| | |
|---|---|
| Taflen Manyleb | ELS10138_H4000_Specsheet_V2_NK.pdf |
| Llyfryn | ELS10139_H4000_Brochure_V2_HW.pdf |
| Cromlinau Cywirdeb a Cholled | H4000 Typ Acc & HL curves.pdf |

**Arad sonata DN20 R500**

https://arad.co.il/wp-content/uploads/SONATA-DN20_DN25-ENG-December-23-REV3-.pdf

**ABB Aquamaster4**

| | |
|---|---|
| Taflen Manylebau | OI_FER100_FER200-EN_D.pdf |
| Canllawiau Gosod | OI_FET200-EN_M.pd.pdf |
| Canllaw i Ddefnyddwyr Fframwaith | CANLLAWIAU DEFNYDD Dŵr Cymru DCWW 177 2015 Rev. 02.pdf |

# Appendix 2 – Amodau a Thelerau Safonol ar gyfer Cyflenwad Dŵr â Mesurydd

Mae'r mesurydd yn aros yn eiddo i Ddŵr Cymru Welsh Water bob amser. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau ei fod yn cael ei gadw mewn amgylchedd diogel a bod modd i weithwyr Dŵr Cymru a/neu ei gynrychiolwyr ei gyrchu er mwyn darllen a chynnal y mesurydd.

Bydd Dŵr Cymru Welsh Water (a elwir 'y Cwmni' wedi hyn) yn cyflenwi dŵr trwy fesurydd yn amodol ar yr amodau a'r telerau canlynol:

1. Bydd y cwsmer yn derbyn y cyflenwad yn amodol ar Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1999 sydd mewn grym ar y pryd neu unrhyw reoliadau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu unrhyw ddiwygiad iddi neu ailddeddfiad ohoni at ddibenion atal gwastraff, defnydd diangen, camdriniaeth neu halogi'r dŵr, ac yn glynu wrth, yn dilyn ac yn cydymffurfio â'r fath is-ddeddfau a rheoliadau.

2. At ddibenion canfod cyfaint y dŵr a gyflenwir, bydd y Cwmni'n darparu mesurydd o'r fath faint a disgrifiad ag y mae'n ei bennu, a bydd yn ei gynnal ac yn ei ddisodli fel y gwêl yn angenrheidiol. Bydd y mesurydd yma, neu unrhyw fesurydd a osodir yn ei le, yn eiddo i'r Cwmni, ac ni chaiff ei dynnu, ac ni fydd neb yn ei symud nac yn ymyrryd ag ef heblaw swyddogion y Cwmni, heblaw o dan Gymal 12 isod. Mae ymyrryd â mesurydd heb awdurdod yn drosedd hefyd o dan A175 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, a bydd euogfarn ddiannod yn golygu dirwy.

3. Os bydd dŵr yn dianc o osodiad mesurydd mewnol am unrhyw reswm, y cwsmer fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir. Y cwsmer sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw fesurydd mewnol a osodir yn cael ei amddiffyn rhag rhew, a hynny wrth ganiatáu ar gyfer darllen y mesurydd yn rhwydd.

4. Y defnydd a gofnodir ar y mesurydd fydd y sylfaen ar gyfer unrhyw daliadau a godir. Os oes unrhyw amheuaeth ar y naill ochr neu'r llall o ran am ba mor gywir yw'r cofnod o'r dŵr a ddarparwyd ar y mesurydd, gall y Cwmni, ac ar gais ysgrifenedig, Adwerthwr y cwsmer, dynnu a phrofi'r mesurydd yn unol â Rheoliadau Dŵr (Mesuryddion) 1988 a Rheoliadau Offer Mesur (Mesuryddion Dŵr Oer) 1988 a Rheoliadau Teclynnau Mesur (Mesuryddion Dŵr Oer) 2006 neu unrhyw Reoliadau eraill o'r fath a wneir. Y cwsmer sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw fesurydd mewnol a osodir yn cael ei amddiffyn rhag rhew, a hynny wrth ganiatáu ar gyfer darllen y mesurydd yn rhwydd.

5. Y cwsmer fydd yn gyfrifol am yr holl ddŵr sydd wedi pasio trwy'r mesurydd, felly bydd yn talu amdano er gwaethaf unrhyw golledion neu ollyngiadau, gwastraff neu gamddefnydd. Ni chaiff y cyfrifoldeb hwn ei leddfu gan unrhyw waith trwsio ar bibellau a ffitiadau y mae'r cwmni'n gyfrifol am eu cynnal, sy'n cael ei gyflawni gan y Cwmni neu gan unrhyw berson arall. O ganlyniad, mae hi o fudd i'r cwsmer ei hun darllen y mesurydd yn gyson ac yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gynnydd anesboniadwy mewn defnydd yn parhau heb ymchwiliad.

6. Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i fynnu bod y cwsmer yn gosod falf atal ar ran y cwsmer o'r bibell wasanaeth ar ei dir ei hun mor agos ag sy'n rhesymol ymarferol at y mesurydd. Dylid nodi taw'r cwsmer sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r holl bibellau a ffitiadau (yn rhinwedd Cymal 2 isod, nid yw'r term yma'n cynnwys y mesurydd) ar ran y cwsmer o'r bibell gyflenwi, waeth beth fo lleoliad y mesurydd. Mae rhan y cwsmer o'r bibell gyflenwi'n ymestyn o falf atal y Cwmni, sydd wrth ffin yr eiddo'r cwsmer â'r briffordd fel rheol, i mewn i eiddo'r cwsmer. Weithiau, bydd y cwsmer yn rhannu'r cyfrifoldeb dros rai rhannau o'r bibell wasanaeth â chwsmeriaid eraill.

7. Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i fynnu bod y cwsmer yn gosod cyfleusterau storio dŵr oer, o'r fath gyfaint ag y gwêl y Cwmni'n ddigonol mewn perthynas â'r defnydd o ddŵr ar y safle a gaiff ei gysylltu.

8. Gellir torri neu atal y cyflenwad dŵr at ddibenion cyflawni unrhyw waith angenrheidiol yn amodol ar unrhyw fesurau diogelu mewn perthynas â darparu hysbysiad ymlaen llaw o dan Warant Gwasanaeth y Cwmni.

9. Yn amodol ar Warant Gwasanaeth y Cwmni, ni fydd y Cwmni'n gyfrifol am unrhyw ddifrod neu golled y mae'r cwsmer yn ei ddioddef neu unrhyw ddamwain i gyflogeion y cwsmer a achosir gan unrhyw doriad neu ataliad dros dro yn y cyflenwad, neu unrhyw bwysedd gormodol neu ddiffygiol, neu fethiant unrhyw weithwyr, gwaith, peiriannau, pibellau neu offer y Cwmni, heblaw nad yw'r cwmni'n eithrio nac yn cyfyngu ar atebolrwydd am farwolaeth neu anafiadau personol o ganlyniad i'w esgeulustra.

10. Gellir datgomisiynu'r cyflenwad dŵr ar gais y cwsmer yn unol ag A.62 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ar yr amod bod Adwerthwr y cwsmer wedi rhoi hysbysiad i'r Cwmni o dan A.62 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 i ddatgysylltu'r cyflenwad dŵr. Os caiff y trefniadau i gyflenwi dŵr trwy fesurydd eu dirwyn i ben am unrhyw reswm a bod y mesurydd o fewn cwrtil eiddo'r cwsmer, bydd gofyn i'r cwsmer dynnu'r mesurydd ar ei gost ei hun, a'i gyflwyno i'r Cwmni mewn cyflwr da, oni bai bod y cwsmer a'r Cwmni'n cytuno bod y mesurydd yn dod yn eiddo i'r cwsmer a bod y cwsmer yn atebol amdano.

11. Gall y Cwmni gyflwyno unrhyw hysbysiad o dan yr amodau a'r telerau hyn trwy ei adael ar gyfer y cwsmer ar y safle i'w gyflenwi neu yng nghyfeiriad neu le busnes hysbys diwethaf y cwsmer neu (yn achos cwmni) yn ei swyddfa gofrestredig neu trwy ei roi yn y post cyffredinol wedi ei gyfeirio at y cwsmer ar safle o'r fath, a bydd yn ddilys os yw'n cynnwys, neu'n cynnwys i bob golwg, mewn print neu fel arall, llofnod y Cyfarwyddwr neu unrhyw swyddog arall ag awdurdod y Cwmni. Rhaid i unrhyw hysbysiad gan y cwsmer i'r Cwmni fod â llofnod y cwsmer neu rywun sy'n llofnodi ar ei ran, a rhaid ei anfon trwy'r post neu fel arall i: Dŵr Cymru Welsh Water Blwch SB 690, Caerdydd, CF3 5WL.

12. Bydd y Cwmni'n pennu manylion lleoliad y mesurydd, ei fath, ei faint a'i drefniadau gosod, yn unol ag A.47(2) ac A.162 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn amodol ar unrhyw reoliadau statudol â phwys mwy. Os nad yw'r mesurydd yn y briffordd, nac ar safle'r cwsmer ei hun, rhaid i'r cwmni fod â hawl gyfreithiol i'w gyrchu er ei fudd ei hun ac er budd y Cwmni.

# Appendix 3 – Peryglon cyffredin hysbys

## Peryglon cyffredin hysbys y mae angen eu rheoli wrth weithio yn neu'n agos at siambrau mesuryddion DCWW a'r cyfarpar cysylltiedig.

(Nid yw'r rhestr isod o beryglon yn gynhwysfawr. Rhaid i drydydd partïon gyflawni asesiadau risg pwrpasol addas a digonol ar bob safle cyn dechrau unrhyw waith; ni fydd DCWW yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros oruchwylio trydydd partïon)

| Perygl | Risg | Rheolaeth |
|---|---|---|
| Gweithio yn y briffordd | Anaf personol / trydydd parti Taro gan gerbyd sy'n | Achrediad gwaith stryd.<br>Goleuo ac amddiffyn arwyddion. |
| Codi a symud gorchuddion Siambrau | Anaf personol Difrod i gyfarpar o'i ollwng | Archwiliad gweledol o gyflwr y gorchudd. Glanhau a chlirio unrhyw falurion o fewn y colyn neu unrhyw fecanwaith arall cyn agor.<br>Offer sy'n addas ar gyfer y gwaith. Hyfforddiant trin â llaw. Staff Ffit a Medrus. |
| Mannau cyfyng | Mygu Anaf personol | Hyfforddiant mannau cyfyng i safon City & Guilds 6150. Offer Monitro Nwy a gweithio fesul 2 os oes angen yn dilyn asesiad risg a system waith diogel. |
| Nodwyddau / Offer Miniog / Bioberyglon | Heintiad | PPE addas a hyfforddiant ymwybyddiaeth am ffyn nodwydd. Os na chafwyd hyfforddiant gwaredu, cysylltwch â DCWW i drefnu gwaredu. |
| Gweithio ar Uchder / mynd i mewn ac allan o siambrau | Syrthio o uchder / anaf personol | Hyfforddiant addas a digonol ar weithio ar uchder / Cyfarpar diogelu personol.<br>Ysgolion symudol sy'n addas at y dasg |
| Arferion hylendid gwael | Halogi cyflenwadau dŵr | Hyfforddiant mewn arferion hylendid dŵr. Deiliad cerdyn hylendid dŵr. Darparu toddiant Chloros i ddiheintio'r holl ffitiadau |
| Piblinellau dŵr pwysedd uchel | Anaf personol / difrod i offer allweddol (PRV ac ati) | Deall piblinellau dan bwysedd a'r risgiau cysylltiedig. Ymgynghori â staff gweithredol os oes angen mynd i'r siambr. |
| Amgylchedd Gwaith Cyffredinol | Anafiadau personol a thrydydd parti | Hyfforddiant asesu risg. Asesiadau risg a datganiadau o risg sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer y gweithgaredd. |
| Agos at brosesau diwydiannol | Halogiad yr ardal waith / siambr. Mewnlifiad halogydd ffisegol neu atmosfferaidd - anaf personol | Asesiad risg deinamig o'r ardal waith.<br>Atal mynediad os yw'r amodau'n broblemataidd.<br>Uwchgyfeirio at DCWW fel perchennog yr ased. |